**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
**Coed Pella, Bae Colwyn, LL29 7AZ**

Annwyl Randdeiliad,

**Mewn perthynas â'r cynnig i sefydlu ysgol gymysg cyfrwng Saesneg newydd ar gyfer Abergele a chau Ysgol Glan Gele ac Ysgol Sant Elfod.**

Yn ei gyfarfod ar 12 Awst 2025, yn dilyn ystyriaeth ofalus, penderfynodd Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gadarnhau'r cynnig i uno Ysgol Glan Gele ac Ysgol Sant Elfod, sy'n golygu y bydd y ddwy ysgol yn dod i ben (cau) ar 31 Awst 2026.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnig sefydlu ysgol gymysg cyfrwng Saesneg newydd ar gyfer Abergele i'w chynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar safleoedd presennol Ysgol Glan Gele ac Ysgol Sant Elfod ar gyfer plant 3-11 oed. Bydd y cynnig hwn yn cael ei roi ar waith ar 1 Medi 2026.

Wrth benderfynu ar y cynnig, rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i'r ffactorau a ganlyn yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (11/2018):
• Ansawdd a safonau mewn addysg
• Yr angen am leoedd
• Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill

Gwnaethpwyd y penderfyniad yn dilyn cyfnod gwrthwynebu statudol a gynhaliwyd rhwng 28 Ebrill 2025 a 25 Mai 2025. Mae'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd ac ymateb yr awdurdod lleol wedi'u crynhoi yn yr adroddiad gwrthwynebiadau a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 12 Awst 2025.

Mae'r adroddiad a dogfennau perthnasol eraill ar gael yma
www.conwy.gov.uk/YmgynghoriadYsgolionAbergele

Yn unol â'r penderfyniad uchod, bydd Ysgol Glan Gele ac Ysgol Sant Elfod yn cau ar 31 Awst 2026 ac yn cael eu disodli gan un ysgol ar gyfer Abergele ar ddau safle.

Dr Lowri Brown,
Pennaeth Gwasanaethau Addysg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Conwy County Borough Council**
**Coed Pella, Colwyn Bay, LL29 7AZ**

Dear Stakeholder,

**Regarding the proposal to establish a new English Medium, mixed sex school for Abergele and discontinue Ysgol Glan Gele and Ysgol Sant Elfod.**

In its meeting on $12^{th}$ August 2025, following careful consideration, Conwy County Borough Council's Cabinet decided to confirm the proposal to amalgamate Ysgol Glan Gele and Ysgol Sant Elfod, which means that both schools will discontinue (close) on 31st August 2026.

Conwy County Borough Council propose to establish a new English Medium, mixed sex school for Abergele to be maintained by Conwy County Borough Council on the sites of the existing Ysgol Glan Gele and Ysgol Sant Elfod schools, for children aged 3-11. This proposal will be implemented on the 1st September 2026.

In deciding on the proposal, the Cabinet considered the following factors in accordance with the School Organisation Code (11/2018):
• Quality and standards in education
• The need for places
• Education resources and other financial implications

The decision was made following a statutory objection period that was held from $28^{th}$ April 2025 to $25^{th}$ May 2025. The objections received and the local authority's response are summarised in the objection report submitted to the Cabinet on $12^{th}$ August 2025.

The report and other relevant documents are available here
www.conwy.gov.uk/AbergeleSchoolsConsultation

In accordance with the above decision, Ysgol Glan Gele and Ysgol Sant Elfod, will close on 31st August 2026 and be replaced by one school for Abergele on two sites.

Dr Lowri Brown,
Head of Education Services
Conwy County Borough Council